# Gwneud penderfyniadau am eich iechyd, eich lles a'ch materion ariannol...

## Pwy sy'n penderfynu pan na allwch chi?



Mae cyfraith newydd a all helpu

Oes gennych chi salwch, anaf neu anabledd a all greu trafferthion i chi wrth wneud penderfyniadau?

Ydych chi'n gofalu am berson, yn gweithio gyda pherson, neu'n gwybod am berson sy'n cael trafferth gwneud penderfyniadau?

Ydych chi eisiau cynllunio ymlaen rhag ofn na fyddwch yn gallu gwneud penderfyniadau pwysig drosoch eich hun yn y dyfodol?

Mae cyfraith newydd a all helpu.

## Deddf Gallu Meddyliol 2005

Rydym yn feunyddiol yn gwneud penderfyniadau am lu o bethau yn ein bywydau. Gelwir y gallu i wneud penderfyniadau yn **allu meddyliol.** Efallai y bydd pobl yn cael trafferth gwneud rhai penderfyniadau naill ai drwy'r amser neu weithiau. Gallai hyn fod oherwydd fod ganddynt:

- anabledd dysgu
- dementia
- problem iechyd meddwl
- anaf i'r pen neu strôc

A gall unrhyw un ohonom gynllunio ymlaen llaw rhag ofn na fydd y gallu meddyliol gennym yn y dyfodol, oherwydd damwain er enghraifft.

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn effeithio ar bobl yng Nghymru a Lloegr, yn y sefyllfaoedd hyn. Bydd hefyd yn effeithio ar eu teuluoedd, eu gofalwyr, staff iechyd a gofal cymdeithasol a phobl eraill a all gael cyswllt â nhw. Gallai fod yn berthnasol i bob math o benderfyniadau mawr lle na fydd gan y person y gallu meddyliol, pethau megis trefniadau ariannol, gofal cymdeithasol, triniaeth feddygol ac ymchwil, yn ogystal â phenderfyniadau beunyddiol.



211of07_MCA-Leaflet_Cymraeg.indd1 1 16/02/2007 11:11:46

Yn gyffredinol, bydd y Ddeddf ond yn effeithio ar bobl 16 oed neu fwy.

Rhoddir y Ddeddf ar waith ym mis Ebrill 2007. Ym mis Ebrill, daw'r gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) i rym (yn Lloegr yn unig) a'r trosedd yn dechrau. Ym mis Hydref, bydd yr EGMA yn dechrau ar ei waith yng Nghymru a bydd pob rhan arall o'r Ddeddf yn dod i rym.

Mae'r daflen hon yn esbonio beth yw'r rhain

## Sut allai'r Ddeddf effeithio arnoch chi

**Os nad ydych yn gallu gwneud rhai penderfyniadau mae'r Ddeddf yn esbonio:**

- y dylech chi gael cymaint ag y bo modd o gymorth i wneud eich penderfyniadau eich hun
- sut y dylid gwneud **asesiad o allu** meddyliol ynghylch a allwch wneud penderfyniad neilltuol ar amser penodol
- hyd yn oed os nad yw'r gallu gennych i wneud penderfyniad cymhleth iawn drosoch eich hun nad yw hyn yn golygu nad ydych yn gallu gwneud penderfyniadau symlach.
- hyd yn oed os oes rhywun yn gorfod gwneud penderfyniad ar eich rhan, bod yn rhaid i chi fod yn rhan o'r penderfyniad gymaint ag y bo modd.
- bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gwneud penderfyniad ar eich rhan wneud hynny er eich **lles gorau** chi
- bod mesur diogelu newydd, yr **Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol**, a fydd yn eich cynrychioli os nad yw'r gallu gennych i wneud rhai penderfyniadau pwysig ac nad oes neb arall y gellir ymgynghori ag ef/hi.



211of07_MCA-Leaflet_Cymraeg.indd2 2 16/02/2007 11:11:46

**Os ydych eisiau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y dyfodol, mae'r Ddeddf:**

- yn gadael i chi wneud **Atwrneiaeth Barhaol** (LPA) sy'n eich galluogi i benodi rhywun i wneud penderfyniadau am eich materion ariannol a'ch eiddo neu eich gofal iechyd a'ch lles petaech rhywbryd yn colli'r gallu i wneud y penderfyniadau hyn eich hun
- yn eich galluogi i wneud '**penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth**' os oes triniaeth feddygol neilltuol na fyddech yn dymuno'i chael rywbryd yn y dyfodol pan na fydd y gallu meddyliol gennych o bosibl i'w gwrthod.

**Os ydych yn ofalwr ac yn aelod o'r teulu neu'n ofalwr arall nad yw'n derbyn tâl, mae'r Ddeddf:**

- yn eich helpu i ddeall sut a phryd y gallwch weithredu ar ran rhywun nad yw'r gallu ganddo/i i wneud penderfyniadau - a'r mesurau diogelu a'r cyfyngiadau os ydych yn gwneud hyn
- yn dweud y dylai gweithwyr proffesiynol ymgynghori â chi pan, er enghraifft, fydd meddyg yn gwneud penderfyniad am driniaeth ar gyfer aelod o'r teulu heb allu meddyliol.

**Os ydych yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r Ddeddf:**

- yn darparu fframwaith ar gyfer asesu gallu meddyliol person a nodi beth sydd er eu lles gorau os nad yw'r gallu ganddynt i wneud penderfyniad
- yn darparu mesurau diogelu a chyfyngiadau pan fyddwch yn gweithio gyda rhywun heb y gallu i roi ei ganiatâd i dderbyn gofal neu driniaeth.



211of07_MCA-Leaflet_Cymraeg.indd3 3 16/02/2007 11:11:46

**Os ydych chi'n gweithio yn y sectorau cyfreithiol, bancio neu gynghori, mae'r Ddeddf:**

- yn creu un fframwaith cydlynol ar gyfer delio gyda materion gallu meddyliol a system well ar gyfer datrys anghydfodau, delio gyda materion iechyd a lles, a materion ariannol pobl heb allu meddyliol.

## Mae'r Ddeddf yn creu mesurau diogelu pwysig:

- **Llys Gwarchod** newydd a fydd â phŵer i wneud datganiadau ynghylch a yw person heb allu, gwneud gorchmynion neu benodi dirprwyon i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran rhywun heb allu. Ar sawl achlysur, efallai y bydd ffyrdd eraill o ddelio gyda sefyllfaoedd anodd heb orfod mynd i'r Llys, megis trwy weithdrefnau cwyno sydd eisoes ar gael.
- Swyddog cyhoeddus newydd - y **Gwarcheidwad Cyhoeddus**. Bydd ganddo/i nifer o ddyletswyddau dan y Ddeddf yn cynnwys cofrestru Atwrneiaethau Parhaol, a goruchwylio dirprwyon a benodir gan y llys. Cefnogir y Gwarcheidwad Cyhoeddus wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hyn gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus newydd a fydd yn disodli'r hen Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus.
- **Trosedd** newydd o gamdriniaeth yn wael neu esgeuluso'n fwriadol berson heb allu.

Bydd Cod Ymarfer, a gyhoeddir ym mis Ebrill 2007, yn esbonio sut bydd y gyfraith newydd yn gweithio. Dywed y Ddeddf fod yn rhaid i weithwyr proffesiynol a gofalwyr sy'n cael eu talu, ymysg eraill, ystyried y Cod.



211of07_MCA-Leaflet_Cymraeg.indd4 4 16/02/2007 11:11:46

## Sut bydd y Ddeddf yn effeithio ar y trefniadau presennol?

**Os ydych yn dderbynnydd ar ran rhywun heb allu:**

- byddwch yn cadw'ch pwerau ar ôl i'r Ddeddf newydd ddod i rym ond byddwch yn cael eich trin fel dirprwy, wedi'ch penodi gan y Llys Gwarchod newydd. Bydd y Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus yn cysylltu â phawb sy'n gweithredu fel derbynnydd ar hyn o bryd er mwyn gwneud y trefniadau gweinyddol gofynnol. Does dim rhaid i chi gysylltu â ni.

**Os ydych wedi gwneud Atwrneiaeth Barhaus (EPA) neu os ydych yn gweithredu ar ran rhywun dan Atwrneiaeth Barhaus:**

- bydd yn dal i fod yn ddilys ar ôl i'r Ddeddf newydd ddod i rym, hyd yn oed os nad yw wedi'i chofrestru eto, oni phenderfyna'r person sydd wedi gwneud yr Atwrneiaeth Barhaus ei dinistrio a'i disodli gydag Atwrneiaeth Barhaol (LPA).

### Cyn i'r Ddeddf ddechrau

Ond ni ddylai'r newidiadau hyn eich atal rhag cymryd y camau gofynnol nawr i gynllunio ar gyfer y dyfodol neu i reoli materion ariannol rhywun heb allu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddfa Gwarcheidiaeth Gyhoeddus yn

e-bost: custserv@guardianship.gsi.gov.uk

rhif ffôn: 0845 330 2900

Neu ewch i'r wefan yn: www.guardianship.gov.uk



211of07_MCA-Leaflet_Cymraeg.indd5 5 16/02/2007 11:11:46

## Rhagor o wybodaeth am y Ddeddf newydd

Rydym yn cynhyrchu llyfrynnau gwybodaeth manylach (yn ddi-dâl) ar gyfer y grwpiau canlynol o bobl yr effeithir arnynt gan y Ddeddf:

1. Pobl heb allu neu sy'n dymuno cynllunio ar gyfer y dyfodol
2. Gofalwyr yn y teulu neu ofalwyr eraill nad ydynt yn derbyn tâl
3. Staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
4. Gweithwyr Cynghori
5. Pobl ag anableddau dysgu

Os carech chi gael y llyfrynnau hyn (neu fwy o gopïau o'r daflen hon) cysylltwch ag Inprint ar:

E - reorder@inprintlitho.com

T - 023 80 878038 or 023 80 878036

F - 023 80 528324

Mae'r daflen hon ar gael mewn ieithoedd eraill ac mewn fformatau gwahanol ar gais.



211of07_MCA-Leaflet_Cymraeg.indd6 6 16/02/2007 11:11:46

## Manylion cysylltu a gwybodaeth


| | |
|---|---|
| post: | Mental Capacity Implementation Programme<br>Department for Constitutional Affairs<br>5th floor, Steel House<br>11 Tothill Street<br>Llundain<br>SW1H 9LH |
| e-bost: | makingdecisions@dca.gsi.gov.uk |
| gwefan: | www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm |


Darperir y wybodaeth am y Ddeddf Gallu Meddyliol newydd gan y sefydliadau canlynol:

DH Department of Health

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

public guardianship office

dca
Adran Materion Cyfansoddiadol
Cyfiawnder, hawliau a democratiaeth

© Hawlfraint y Goron 2007

cyf MCIP2